



PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

24 MAWRTH 2021

ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 1 2021

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo'r diwygiadau i Gofrestr Risg PPC

RHESYMAU:

Crëwyd a chymeradwywyd Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru gan y CBLI ar 17 Gorffennaf 2020. Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad chwarterol o'r gofrestr, gan edrych ar hanner cyntaf yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio, risgiau G.1 i G.6.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn: 01267 224160

E-bost:
CMoore@carmarthenshire.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

24 MAWRTH 2021

ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 1 2021

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae PPC wedi creu Cofrestr Risg, sef y modd y mae risgiau yn cael eu dogfennu, eu rheoli a'u monitro. Pwrpas Cofrestr Risg y PPC yw:

- Amlinellu risgiau a ffactorau allweddol PPC a allai gyfyngu ar ei allu i gwrdd â'i amcanion
- Meintoli difrifoldeb a tebygolrwydd y risg sy'n wynebu PPC
- Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg PPC
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyn am strategaethau lliniaru risg pellach

Cymeradwywyd y Gofrestr Risg wreiddiol gan y CBLI ar 17 Gorffennaf 2020. Y GS sy'n gyfrifol am gynnal a chadw Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLI yn chwarterol.

Yn ystod y chwarter diwethaf, cynhaliwyd adolygiad o rai o'r risgiau o fewn adran Llywodraethu a Rheoleiddio y Gofrestr Risg, risgiau G.1 i G.6. Mae'r daflen sydd ynghlwm yn rhoi crynodeb o ddeilliannau adolygu pob risg.

Mae gan y GS Is-grŵp Risg PPC penodol i gymryd perchnogaeth o Gofrestr Risg PPC ac adolygiad chwarterol y ddogfen hon. Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch2 2021 a bydd yn canolbwyntio ar weddill y risgiau o fewn yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio, sef risgiau G.7 i G.12.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol	Cyllid	Materion Rheoli Risg	Goblygiadau Staffio
	DIM	DIM	DIM	DIM
Polisi Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN